# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0593(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mehefin 2008

**At Michael German:**

Gwnaethoch y sylw yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Mehefin 2008 eich bod yn croesawu Strategaeth Swyddi Gwyrdd ac y byddai angen meincnodau i fesur ei lwyddiant. Ymgymerais i ysgrifennu atoch i roi gwybod y cafwyd asesiad o faint o swyddi gwyrdd sydd yng Nghymru a faint o gyfraniad y maent yn ei wneud i werth ychwanegol crynswth economi Cymru.

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar fformat cyson ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y Strategaeth Swyddi Gwyrdd, a gaiff ei chyhoeddi i ymgynghori arni yn ddiweddarach eleni, yn adolygu'r holl ddata perthnasol er mwyn rhoi man cychwyn sy'n berthnasol i'r Strategaeth fel y gallwn fonitro'r cynnydd.